At:
Cyng Glynog Davies
Cadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriath

Gofynnwch am: Craffu
Llinell Swyddfa Craff 01792 637732
e-bost craffu@abertawe.gov.uk
Dyddiad 02/08/2024

Annwyl Gynghorydd Davies

Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth - 24 Mehefin 2024

Hoffai'r Grŵp Cynghorwyr Craffu ddiolch i chi, swyddogion a staff ysgol am ddod i'n cyfarfod, am gyflwyno'r wybodaeth y gofynnom amdani ac am ateb ein cwestiynau. Ysgrifennaf atoch i fyfyrio ar ein barn o'r cyfarfod.

Blaenoriaethau Partneriaeth
Cytunom fel rhan o'n rhaglen waith i edrych ar berfformiad pob un o flaenoriaethau Partneriaeth, felly croesawom yr adroddiad diweddaru ar flaenoriaeth pedwar: Darparu llwybrau gyrfa ar gyfer arweinwyr, ymarferwyr a staff cymorth ar bob lefel o'r system.

Amlinellodd Arweinydd Strategol ar gyfer Arweinyddiaeth Partneriaeth, Rob Phillips, ddiben blaenoriaeth 4. Clywsom am nod y flaenoriaeth a sut y mae'n darparu cyfleoedd datblygu i gynorthwywyr addysgu, athrawon newydd gymhwyso, arweinwyr canol, uwch-arweinwyr a darpar arweinwyr.

Gofynnom a oedd llwybr i gynorthwywyr addysgu ddod yn athrawon cymwysedig. Deallwyd na allant wneud cwrs TAR heb radd. Felly, roedd gennym ddiddordeb mewn archwilio sut y gall y cynorthwywyr addysgu hynny sy'n dymuno bod yn athrawon gyflawni eu nod. Clywsom nad yw'r sefyllfa ariannol y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn ei hwynebu ar hyn o bryd yn helpu'r sefyllfa hon. Mae'r cymwysterau cynorthwyydd addysgu lefel uwch yn cyfrif fel achrediad tuag at radd.

Cytunom ei bod yn rhaglen hyfforddi a datblygu ardderchog ac amrywiol a gofynnom a oedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a gynigiwyd yn cael ei gynnal yn ystod y diwrnod ysgol neu'n ychwanegol ato. Roedd gennym ddiddordeb hefyd mewn archwilio a oes problem gyda darparu athrawon cyflenwi pan fyddant yn dymuno mynychu. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant yn digwydd yn bennaf yn ystod y diwrnod ysgol. O ran cyflenwi, clywsom y gall fod yn dipyn o gymysgedd ar draws ysgolion.

Gofynnom a oedd unrhyw dystiolaeth o bobl yn canfod nad ydynt yn gallu symud ymlaen yn eu gyrfa oherwydd nad ydynt wedi gallu cael lle ar gyrsiau oherwydd bod problem o ran cyflenwi er enghraifft. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw ymchwil penodol sydd wedi gallu diffinio unrhyw dueddiadau yn y ffordd honno, er eu bod yn

clywed am ddigwyddiadau unigol lle mae pobl wedi dweud bod cymaint yn digwydd yn eu hysgol fel na allent wneud y rhaglen ar adeg arbennig. Weithiau maent yn dod i ymuno â'r rhaglen yn ddiweddarach.

Roeddem yn falch o glywed gan Mr Stonham o Ysgol Gynradd Tycroes am ei brofiad o'r rhaglen darpar arweinwyr. Ymhlith yr hyn a ddywedodd wrthym oedd bod y rhaglenni hyn wedi bod yn sylfaenol i'w ddatblygu fel arweinydd ac roedd yn ddiolchgar am y cyfle i fod yn bresennol ynddynt. Dywedodd wrthym fod gan y tri chwrs yr oedd wedi'u mynychu arweinwyr ysbrydoledig. Roedd clywed straeon am arweinyddiaeth bywyd go iawn, eu llwyddiannau yn ogystal â'u profiadau yn wirioneddol braf oherwydd gwnaeth iddo sylweddoli nad oes rhaid i chi fod yn berffaith fel arweinydd i fod yn arweinydd llwyddiannus. Dywedodd ei fod wedi casglu amrywiol berlau o wybodaeth dros y cyrsiau sydd wedi ei helpu'n sylweddol yn ei rolau arwain, boed hynny trwy weithredu gwahanol brosiectau, adeiladu tîm neu enghreifftiau syml fel hunan-lesiant a chymhelliant.

Dywedoch wrthym ei bod yn bwysig bod arweinyddiaeth gref mewn ysgolion ar draws y rhanbarth a'ch bod yn gwerthfawrogi'r rhaglen waith hon ac y byddech yn annog ymarferwyr i fynychu pan fo'n bosibl.

Gwnaethom ddiolch i Mr Phillips a Mr Stonham am yr wybodaeth ddiweddaraf. Rydym wedi canfod bod y gwaith sy'n cael ei gwblhau yn y maes hwn yn ardderchog ac yn ysbrydoledig.

Cadeirydd y cyd-bwyllgor a chyfarwyddwyr o bob cyngor
Fe wnaethom eich gwahodd chi a'r tri chyfarwyddwr o bob rhan o ranbarth Partneriaeth i roi adborth a'ch barn er mwyn helpu i roi sicrwydd bod Partneriaeth yn gweithredu yn unol â'r cytundeb cyfreithiol, ei chynllun busnes a bod ei hamserlen yn cael ei rheoli'n effeithiol.Gwnawn hyn yn flynyddol yn unol â'r cytundeb cyfreithiol, sy'n nodi bod yn rhaid i gyfarwyddwyr addysg pob un o'r cynghorau i gyd fynychu gyda'i gilydd a bod rhaid i gadeirydd y cyd-bwyllgor fynychu, o leiaf unwaith y flwyddyn.

Diolch am ddod i'n cyfarfod ac am roi adborth i ni. Dywedoch wrthym ei bod yn bwysig sylweddoli bod Partneriaeth yn dal yn gymharol newydd a'i bod ar daith. Dywedoch eich bod yn hapus ac yn hyderus bod yr hyn sy'n digwydd yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, y cytundeb cyfreithiol a'i fod yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y tri chyngor.

Clywsom gan Gyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin a ddywedodd fod ystod eang o gyrsiau'n cael eu darparu, ond gall fod yn her i ysgolion ddarparu athrawon cyflenwi er mwyn rhyddhau ymarferwyr i'w mynychu.Hefyd, cynhelir trafodaethau rheolaidd â chyfarwyddwyr i wneud yn siŵr bod Partneriaeth yn ychwanegu gwerth ac yn helpu awdurdodau lleol unigol i gyflawni eu hamcanion. Mae gwaith da yn cael ei gwblhau mewn perthynas ag ymchwil, mae'n bwysig rhannu'r arfer da hwnnw. Dywedodd ei fod yn gadarnhaol ynghylch ble mae arian yn cael ei wario yn Partneriaeth a bod ei phrosesau'n dryloyw.

Dywedodd Cyfarwyddwr Addysg Abertawe ei bod yn adleisio'r hyn a ddywedodd cyfarwyddwr Sir Gaerfyrddin ac y byddai hefyd yn amlinellu rhai o'r meysydd gwella cyffredinol a oedd yn cynnwys: ni ddylai brand Partneriaeth gael ei ddefnyddio yn

ddiangen gan adnoddau dynol, llai o theori yn y rhaglen ddatblygu i alluogi athrawon i wneud pethau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth sydd o ddefnydd ac o werth i athrawon. Tynnodd sylw at y ffaith fod yn rhaid parhau i ddatblygu arweinwyr y dyfodol o ansawdd uchel gan ei fod yn hanfodol i gefnogi ein hysgolion yn y dyfodol.Hefyd, bod swyddogion gwella ysgolion mewn awdurdodau lleol hefyd wedi bod yn allweddol i wella addysgu a dysgu yn ein hysgolion.

Roedd gennym ddiddordeb mewn archwilio'r gwahaniaeth yn y ffordd y mae Partneriaeth yn gweithio o gymharu â'r bartneriaeth flaenorol, Ein Rhanbarth ar Waith. Clywsom y canlynol:

- Mae Partneriaeth yn broses llawer mwy cydweithredol, lle mae'r sefydliad yn gwrando ar randdeiliaid, yn agored, yn dryloyw ac, yn bwysig, yn rhoi ymateb pwrpasol i'r materion a godwyd.
- Mae maint y sefydliad bellach yn llawer llai sy'n ei gwneud yn llawer haws i'w reoli. Mae'n addasu ac yn newid i ddiwallu angen lleol. Ceir deialog anffurfiol a ffurfiol gyda chyfarwyddwyr bob mis.
- Mae ffocws gwirioneddol ar gynnydd o ran sgiliau'r disgyblion sydd wedi cael ei werthfawrogi gan athrawon ac arweinwyr. Mae meddu ar arbenigedd o fewn Partneriaeth hy arbenigedd lythrennedd, rhifedd, gwyddoniaeth ac ati wir wedi rhoi hyder ar draws y system ac mae hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae addysgu da yn ategu'r cwricwlwm ac mae'r rhaglen 'addysgu am bwrpas' wedi llwyddo i fynd yn ôl at y pethau sylfaenol a gwneud yn siŵr bod addysgeg dda yn arwain at gynnydd da gan ddisgyblion. Mae'r gefnogaeth i ysgolion uwchradd wedi'i atgyfnerthu ymhellach, wedi'i deilwra ymhellach ac mae'n fwy pwrpasol fyth.

Gofynom a ydym yn mynd â phob athro gyda ni ar y daith hon i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Dywedoch wrthym ei fod yn gwricwlwm diddorol iawn, ond yn y gorffennol rhoddwyd cynllun i athrawon ei ddilyn ac mae hynny'n wahanol iawn yn awr, ond yr ydych wedi bod yn cael adroddiadau rhagorol am gynnydd. Dywedwyd wrthym hefyd fod y cydberthynas waith agos rhwng swyddogion a swyddogion Partneriaeth wedi datblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth sy'nllawer mwy pwrpasol ac yn fwy perthnasol i ysgolion unigol. Hefyd, bu newid o gymorth lefel uchel i ddull mwy pwrpasol i ddiwallu anghenion ysgolion ac athrawon unigol.

Proffil risg a ddiweddarwyd
Rhoddodd Swyddog Arweiniol Partneriaeth drosolwg o broffil risg y rhanbarth. Dywedodd fod y map gwres yn nodi bod y risgiau canlynol yn sgorio tebygolrwydd canolig a risg effaith uchel:

- Diffyg eglurder ynghylch swyddogaethau Partneriaeth
- Canfyddir nad yw Partneriaeth yn darparu gwerth am arian.

Clywsom fod y proffil risg yn seiliedig ar gynllun busnes 2023/24. Mae wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu argymhellion archwiliad y llynedd. Mae holl gyllid Llywodraeth Cymru wedi'i dderbyn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys unrhyw amrywiadau disgwyliedig. Mae hyn yn golygu bod y risg ariannol o ran amseroldeb cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i leihau.

Dywedwyd wrthym y bydd yn edrych ychydig yn wahanol wrth symud ymlaen ac y bydd cyllid yn dod trwy grant awdurdod lleol, yn dod iddynt drwy'r awdurdodau lleol partner, yn hytrach na grant rhanbarthol. Felly, mae'r risg yma yn dangos unwaith eto bod yna debygolrwydd canolig ac effaith uchel o ran diffyg eglurder ynglŷn â swyddogaethau Partneriaeth. Roeddem yn cytuno, felly, ei bod yn bwysig iawn bod Partneriaeth yn glir ynghylch ei darpariaeth craidd, yn enwedig wrth ystyried yr ailstrwythuro, fel bod ei negeseuo yn cyd-fynd â negeseuon ei hawdurdodau lleol partner.

Amlygodd grŵp y cynghorwyr fod yr ail-strwythuro yn creu ansicrwydd i staff Partneriaeth a bod hyn felly yn risg oherwydd y gallai rhai o'r staff hynny adael i gael cyflogaeth fwy sicr. Dywedodd y cyfarwyddwr arweiniol eu bod yn lliniaru'r risg hon drwy fod yn agored iawn gyda'r staff ynghylch y newid hwn a'r amserlen wrth symud ymlaen. Mae'r holl staff bellach yn ymwybodol o ble y byddant ym mis Medi.

Diweddariad ar y Cwricwlwm i Gymru
Gwnaethom ddiolch i Swyddog Arweiniol Partneriaeth a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y cymorth a'r ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn ystod 2023-24. Roedd yn ddefnyddiol clywed manylion am yr heriau sy'n wynebu ysgolion o ran cymorth cwricwlwm, cynnydd ac asesu.

Byddem yn croesawu eich barn ar gynnwys y llythyr hwn, ond ar yr achlysur hwn nid oes angen ymateb ysgrifenedig ffurfiol arnom.

Yr eiddoch yn gywir,

Cyng Lyndon Jones
Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth
Cllr.lyndon.jones@swansea.gov.uk